

## Newyddion y Tabernacl

Croeso nôl i'r rhai sydd wedi teithio'r byd dros yr haf. Edrychwn ymlaen at fwrw ymlaen i gyflawni'n gwaith fel eglwys unwaith eto. Os oes gennych syniad am weithgaredd, plis dwedwch. Mae cychwyn blwyddyn ysgol yn amser da i ni fod yn llawn syniadau. Byddai syniadau am y flwyddyn nesaf yn help o ran oedfaon, gweithgareddau hwyl, gwaith dyngarol ayyb. Mae croeso i chi ddanfôn awgrymiadau at [tabernacl@hotmail.co.uk](mailto:tabernacl@hotmail.co.uk)



### Bwydo'r Di-gartref a'r anghenus yng Nghaerdydd

Yn ystod y flwyddyn mae'r capel yn cyfrannu at rota prynhawn dydd Sul i fwydo'r anghenus yn y Tabernacl, ochr draw i Ganolfan Siopa Dewi Sant 2. Mae angen enwau newydd arnom ni ar y rota. Byddai cyfrannu jyst un waith mewn blwyddyn yn help mawr. Aeth rhai aelodau newydd yn ystod mis Awst ar ein rhan, ac maen nhw'n dweud i'r profiad fod yn un arbennig iawn iddyn nhw. Os fydddech yn barod i gynnig sesiwn, plis ebostiwch [Margaret Calvert ar margaretcavert@mybtinternet.com](mailto:margaretcavert@mybtinternet.com)

**My mission as a Christian is not "to convert the heathen" as we once asserted, it is rather to assist in the task of helping all people "to live fully, to love wastefully and to be all that they are capable of being."**

**-John Shelby Spong**

**» MMAquotable.com**

### HELPU FFOADURIAID – Dillad ac Esgidiau

Daeth yn amser casglu ar gyfer ffoaduriaid unwaith eto. Y tro hwn, mae angen dillad ac esgidiau cryf, trainers neu esgidiau cerdded i oedolion a phlant o bob oed, a dillad babis. Bydd angen i bopeth fod yn newydd neu fel newydd. Gadewch y bagiau yn llofft y capel, ac fe wnawn ni'r gwaith didoli. Mae croeso i chi gyfrannu'n ariannol, ac fe brynwn ni beth sydd ei angen.

### DYDDIAD OLAF: MEDI 18

Mwy o wybodaeth - [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org), e-bost diweddar a anfonwyd at bawb, neu holwch Carys Davies ac Ann Davies. [ann.pentyrch@btinternet.com](mailto:ann.pentyrch@btinternet.com)

### Suliau Blwyddyn Nesaf

Hoffech chi gyfrannu at neges bore Sul yn ystod 2017? Cysylltwch gyda Geraint Rees ar [geraintrees@hotmail.com](mailto:geraintrees@hotmail.com)

## Y Suliau Nesaf

**Medi 18** - Oedfa deuluol gyda Gwerfyl Morse a Ceri Anwen a ffrindiau.

**Medi 25** - Geraint Rees gyda Bethan Herbert yn llywyddu.

**Hydref 2** - Gwilym ac Eleri Huws a chriw Meisgyn

**Hydref 9** - Eirian gyda Carwyn Lloyd Jones yn llywyddu

**Hydref 16** - Cwrdd Diolchgarwch yng ngofal y Twmiaid a'r Ysgol Sul

**Hydref 23** - Keith Rowlands gyda Bethan Guilfoyle yn llywyddu. Taflen a sgrin yng ngofal Keith

## Noson Bwysig yng Nghaerdydd

Ar wahoddiad Cristnogaeth 21 bydd

**yr Esgob Americanaidd, Jack**

**Spong yn siarad yng Salem**

**Treganna ar nos Lun 24ain**


**Hydref.** Byddai'n dda gweld criw yn ei groesawu i Gymru. Erbyn hyn yn 85 oed ond wedi brwydro dros Gristnogaeth oddefgar, ddeallus a gweithredol ar hyd ei fywyd.

Enwau i Emlyn neu i Geraint Rees.

## Elusennau'r Capel Eleni

Mae cynnwys yr amlenni brown eleni yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng pump o elusennau lleol:

1. Gofalwyr Ifanc,
2. Gorwelion Newydd Iechyd Meddwl, Aberdâr,
3. Ysgol Tŷ Coch,
4. Prosiect Peilot Cymoedd De Cymru Y Samariaid, ac
5. Eye to Eye Counselling Service, Rhondda Cynon Taf.



**Any prejudice, whether it is based on race, ethnicity, gender, sexual orientation, cult or ritual purity, is finally nothing but a dagger aimed at the very heart of this gospel that arises from Jesus' life."**

**~ Bishop John Shelby Spong**

Christians Tired of Being Misrepresented  
[facebook.com/christiansmisrepresented](https://facebook.com/christiansmisrepresented)

jack

## MERCHED Y TABERNACL

### Dydd Mercher, Medi 28ain

Te pwn yn y Plasty (Mansion House) Caerdydd,  
a thaith dywys o amgylch y tŷ moethus hwn  
(£15 ar y diwrnod)

Cwrdd yno – Heol Richmond CF24 3UN  
2:00p.m. am ddwyawr



### CWB Y DWRLYN

Noson Agoriadol 2016 / 2017

**Catrin Heledd**

yn holi

**Ian Gwyn Hughes**

ac

**Osian Roberts**

8:00 p.m. nos Iau, Medi'r 15fed

Clwb Rygbi Pentyrch

### DIOLCH I JEN McDONALD

Ers cwpwl o flynyddoedd nawr mae'r capel wedi ei harddu ar y tu allan gan flodau sy'n cael eu hadnewyddu yn gwbl ddi-ffwdan gan Jen McDonald. Diolch iddi am wneud y gwaith hwn. Mae pobl y pentref yn aml iawn yn gwneud sylwadau am y ffaith fod blodau yn harddu'r lle bob wythnos o'r flwyddyn.

Diolch.

## Capel y Tabernacl

Rhif y Cwmni: 06349041 Rhif Elusen: 1122584

### Rheolwr Safle

Gwahoddir ceisiadau am swydd ran-amser  
yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf.

Disgwylir i'r sawl a benodir ddechrau yn Ionawr 2017.

Am fanylion pellach a thelerau'r swydd, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Mike West (mikealynwest@yahoo.co.uk/01443 206833)

Wendy Reynolds (w.reynolds33@btinternet.com/ 01443 207392)

Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk/01443 225205)

**Dyddiad Cau: Dydd Gwener 23<sup>ain</sup> Medi 2016**